# SL(5)656 - Rheoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol i Reoliadau Cymwysterau Athrawon (Diwygio) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau 2019") i ddiweddaru croesgyfeiriadau at ddarpariaethau yn Rheoliadau Cydnabod Cymwysterau Proffesiynol (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2019 ("Rheoliadau RPQ 2019"), sy'n codi o ganlyniad i ddiwygiadau a wneir gan Reoliadau Cymwysterau a Gwasanaethau Proffesiynol (Darpariaethau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020.

Gwnaeth Rheoliadau 2019 ddiwygiadau i Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 mewn perthynas â chydnabod cymwysterau athrawon yng Nghymru yn unol â Rheoliadau RPQ 2019.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar Ddiwrnod Cwblhau'r Cyfnod Gweithredu (am 11.00 pm ar 31 Rhagfyr 2020).

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron y Senedd ar gyfer sifftio yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Cytunodd y Pwyllgor ar 2 Tachwedd 2020, mai'r weithdrefn negyddol oedd y weithdrefn briodol ar gyfer y Rheoliadau hyn.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Ym mharagraffau 2.1 a 3(b) o fersiwn Gymraeg y Memorandwm Esboniadol mae cyfeiriadau at “Ddeddf Addysg 2020”, sy'n ymddangos fel gwall argraffyddol a ddylai, yn lle hynny, ddweud “Ddeddf Addysg 2002”.

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Diben y Rheoliadau hyn yw sicrhau bod cyfraith yr UE a ddargedwir yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i’r DU adael yr UE.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol mewn perthynas â’r ail bwynt rhinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**17 Tachwedd 2020**